# Ymuno â siwrnai stori

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi i blant bro iad rhyngweithiol o adrodd stori, wedi'i ysbrydoli gan yr awyr agored. Drwy ddewis eitemau naturiol i ategu'r stori, gallant ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl a bras mewn ffordd hwyliog a diddorol.



## Gweithgareddau

Anogwch y plant i ddewis hoff stori ac i eistedd mewn man cyffyrddus lle mae digon o le i symud.
Wrth i'r oedolyn ddarllen, mae'n oedi er mwyn gadael i'r plant actio rhannau o'r stori gan ategu'r naratif drwy ddefnyddio eitemau a ddarganfuwyd neu a gasglwyd ymlaen llaw.

## Offer

- Llyfr stori
- Amrywiaeth o eitemau chwarae sy'n ddarnau rhydd (cerrig, moch coed, brigau)
- Man i adrodd y stori
- Seddau os oes angen (bonion coed, hamogau, blancedi, teils carped)

## Cwestiynau allweddol

*Cwestiynau "Tybed…" er mwyn annog y plant i ddewis eitemau'n annibynnol*
*Cwestiynau "Alli di symud…?" er mwyn annog gwahanol fathau o symud*

## Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: cryfhau sgiliau'r bysedd a'r dwylo drwy ddewis (gafael mewn darnau rhydd a thrin a thrafod rhywbeth o fewn un llaw).
- Sgiliau echddygol bras: ymgorffori ac ymarfer prosesu festibwlar a phropriodderbyniaeth wrth

## Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod – gallant wrando ar y stori, dilyn eitemau â'u llygaid, a dechrau ymestyn, gafael, ac archwilio eitemau.
Plant bach – gallant ddewis eitemau gyda rhywfaint o bromptio, gan ddefnyddio gafael gledrol radiol sy'n datblygu cydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo. Maent yn dechrau arbro i â phropriodderbyniaeth a defnyddio eu gallu cynyddol i reoli ystum y corff.